Hawdd ei Ddeall







# Ein cynllun ar gyfer trin pobl yn gyfartal ac yn deg 2025 i 2029

## Dyma ein cynllun drafft – rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**. Mae'n fersiwn Hawdd ei Ddeall o '**Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2029**'.

**Tachwedd 2024**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pembrokeshire Coast National Park

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 25**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** gwybodaeth@arfordirpenfro.org.uk

**Ffôn:** 01646 624800

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y cynllun yma ........................................................................ 4**

**Ein nodau ........................................................................................11**

**Geiriau anodd ................................................................................26**

# Am y cynllun yma

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park


Ni ydy **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**.



Rydyn ni'n gofalu am **Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro**. Mae'n ardal o harddwch naturiol a llawer o fywyd gwyllt.




Dyma ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i drin pobl yn gyfartal ac yn deg.




Dyma gynllun ar gyfer ein gwaith ar hyn rhwng **2025 a 2029**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl. Fe fyddwn ni'n gwneud newidiadau wedi eu seilio ar beth mae pobl yn ddweud wrthyn ni.




Mae’r gyfraith o’r enw **Deddf Cydraddoldeb** yn dweud bod yn rhaid i ni wneud y cynllun yma i ddangos y byddwn ni:




- Cydnabod nad ydy llawer o grwpiau o bobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Neu gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr un cyfleoedd ag eraill.




- Cydnabod bod gan lawer o grwpiau o bobl anghenion gwahanol neu efallai y byddan nhw angen help ychwanegol.



- Gwneud popeth o fewn ein gallu i drin pobl yn gyfartal ac yn deg.



- Gwneud newidiadau pan fydd gan bobl anghenion ychwanegol neu os ydyn nhw angen help.

Er mwyn gwneud y pethau yma mae'n rhaid i ni:




- Gwneud **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**



- Gofyn i bobl beth maen nhw'n ei feddwl o'r materion.




- Cyhoeddi gwybodaeth am y grwpiau o bobl rydyn ni'n eu cyflogi.



- Edrych i weld fod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal.



- Meddwl am faterion cydraddoldeb pan fyddwn ni'n defnyddio busnesau eraill i gyflenwi gwasanaethau i ni.

## Pa grwpiau o bobl sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?



Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu cyfrif fel rhai gyda **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn grwpiau o bobl sy'n aml yn cael eu gadael allan mewn cymdeithas neu'n cael eu trin yn annheg. Mae'r grwpiau'n ymwneud â:

- Oed
- Anabledd
- Newid rhywedd – mae hyn yn meddwl bod yn rhywedd gwahanol i'r un y cawsoch eich geni ag ef.
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gredoau
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol – mae hyn yn meddwl pwy rydych chi'n cael eich denu atyn nhw.



Weithiau mae pobl yn gally bod yn perthyn i fwy nag un grŵp. Mae gyn yn gallu gwneud bywyd hyd yn oed yn fwy anodd.



Grwpiau eraill o bobl sydd yn gallu cael eu gadael allan neu eu trin yn annheg ydy:

- pobl o gymunedau tlawd
- a phobl nad oes ganddyn nhw lawer o arian.




Mae hyn hefyd yn cael ei drafod yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac mae’n cael ei alw yn **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**.



Mae angen i ni feddwl am sut mae’r grwpiau yma o bobl yn gallu cael eu heffeithio. Mae hyn yn cynnwys plant.







Mae hefyd angen i ni feddwl am blant a'u dyfodol. Mae'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr yn gallu effeithio ar eu bywydau yn y dyfodol.




Mae hyn yn cael ei drafod mewn cyfraith o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.



Mae'r ddeddf yma yn meddwl am lesiant pobl Cymru. Nawr ac yn y dyfodol.



Mae'r ddeddf yma hefyd yn dweud bod angen i ni geisio stopio problemau rhag digwydd neu waethygu.



Mae hefyd yn meddwl gweithio gyda phobl a sefydliadau. Mae'n rhaid i ni wrando ar beth mae pobl yn feddwl.




Mae gennym ni **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg**. Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal ac yn deg â'r Saesneg.




Mae'n bwysig os ydych chi'n siarad Cymraeg eich bod yn gallu cael gwybodaeth Hawdd ei Ddeall yn Gymraeg.




Bob blwyddyn fe fyddwn ni'n gwneud adroddiad o'r enw ein **Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.**




Fe fydd hyn yn dangos beth rydyn ni wedi ei wneud tuag at ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** bob blwyddyn.

# Ein nodau

Mae 4 prif faes yn ein cynllun. Dyma nhw:



**1. Y Parc – ardal i bawb.**



**2. Mae ein Gwasanaethau – yn hygyrch ac yn gynhwysol.**



Mae **hygyrch** yn meddwl hawdd i bobl ei ddefnyddio, beth bynnag maen nhw ei angen.



Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn cael eu cynnwys, pwy bynnag ydyn nhw.



**3. Mae ein staff - yn amrywiol ac yn gynhwysol.**



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o lawer o gefndiroedd, mae ganddyn nhw anghenion gwahanol ac maen nhw'n gwneud dewisiadau gwahanol.



**4. Llywodraethiant ac Ymgysylltu - mae pawb yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.**

# 1. Y Parc – ardal i bawb



**Ein prif nod: Erbyn 2029 mae grwpiau mwy amrywiol o bobl yn ymweld â'r parc. Ac fe fydd yn haws iddyn nhw wneud hynny.**

**Nodau eraill:**



- Fe fydd gan y parc ymwelwyr mwy **amrywiol** ac fe fydd yn haws cael mynediad ato.




- Fe fydd prosiectau i gefnogi plant ac oedolion sydd â llai o arian neu sydd angen cymorth ychwanegol.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio'r parc.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod mwy o dai fforddiadwy yn yr ardal.

**Dyma rai o'r pethau fyddwn ni'n eu gwneud i gyflawni'r amcanion yma:**




- Datblygu prosiect o'r enw **Mynd Allan yn yr Awyr Agored**. Fe fydd hyn yn canolbwyntio ar bethau fel:

  - Cadair olwyn ac offer symudedd traeth. Offer sy'n helpu pobl i fynd o gwmpas.

  - Cerdded â chymorth, gwirfoddoli a gweithgareddau eraill.

  - Gofyn beth mae pobl yn feddwl am sut i wneud lleoedd yn haws i'w defnyddio a'u mwynhau.



- Edrych ar sut i wneud safleoedd yn y Parc yn fwy **hygyrch**.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i wella trafnidiaeth **gynaliadwy**.

Mae **cynaliadwy** yn meddwl rhywbeth fydd yn para am amser hir. Rhywbeth sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd.



- Gwneud cynlluniau ar gyfer Castell Caeriw, Castell Henllys a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc i gefnogi **hygyrchedd** a **chynhwysiant**.



- Codi ymwybyddiaeth o fynediad hawdd i'r parc. Er enghraifft, cynllun cadair olwyn y traeth.



- Gwneud fideos a lluniau am y parc yn hawdd ei ddefnyddio i bawb.




- Gwneud yn siŵr bod y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â phobl yn **hygyrch**. Er enghraifft, trwy ddefnyddio gwybodaeth Hawdd ei Ddeall.




- Dod o hyd i gyllid ar gyfer prosiectau sy'n gwella'r amgylchedd. A helpu pobl o gefndiroedd **amrywiol** i gymryd rhan.



- Cefnogi grwpiau sy’n aml yn cael eu gadael allan. Fel eu bod nhw’n gallu bod yn rhan o’r parc, ac mae’n helpu i wella eu hiechyd a’u llesiant.



- Dod o hyd i gyllid ar gyfer ail brosiect am iechyd meddwl. Enw’r prosiect cyntaf oedd **Gwreiddiau i Adferiad**.




- Rhedeg prosiect o’r enw **1000 Diwrnod Cyntaf**. Datblygu prosiectau eraill ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc.



- Gwneud arolwg bob blwyddyn i wirfoddolwyr. Ac ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn am beth rydyn ni’n ei ddysgu o hyn.




- Datblygu rhaglen i gefnogi defnyddio’r Gymraeg.



- Gwneud cynlluniau i blant a phobl ifanc ddysgu am yr awyr agored a'r parc.



- Adolygu ein gwaith ar iechyd a llesiant.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu prosiectau gyda'n gilydd.



- Drwy ein **Cynllun Datblygu Lleol**, rydyn ni'n helpu i adeiladu mwy o dai fforddiadwy.

Mae'r **Cynllun Datblygu Lleol** yn nodi rheolau am beth sydd yn gallu cael ei adeiladu yn y Parc.

## 2. Mae ein Gwasanaethau – yn hygyrch ac yn gynhwysol



**Ein prif nod: Rydyn ni eisiau i'n gwasanaethau a'n prosiectau fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.**



**Rydyn ni eisiau i'n staff ac eraill gael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.**

**Dyma rai o'r pethau fyddwn ni'n eu gwneud i gyflawni'r amcanion yma:**



- Gwneud yn siŵr bod yr holl staff ac eraill wedi'u hyfforddi i fod yn **hygyrch** ac yn **gynhwysol**. Cael yr hyfforddiant iawn ar eu cyfer.




- Gwneud yn siŵr bod y busnesau sy'n cyflenwi gwasanaethau i ni yn gweithio mewn ffyrdd teg a chyfartal hefyd.



- Rhoi cynllun ar waith am y cyflog byw go iawn i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau i ni. Mae hyn yn meddwl talu digon o arian i bobl fyw arno.




- Dilyn y rheolau ynglŷn â gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau ar-lein yn **hygyrch**.



- Gwneud rhestr wirio ar gyfer prosiectau am fod yn **hygyrch** a **chynhwysol**.



- Cofrestru i'r polisi gan **Dim Hiliaeth Cymru**. Mae'n meddwl sefyll yn erbyn hiliaeth.

## 3. Mae ein staff - yn amrywiol ac yn gynhwysol



**Ein prif nod: Rydyn ni eisiau i'n staff fod yn amrywiol. Ac rydyn ni eisiau i'n staff fod eisiau gweithio i ni a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth.**

**Nodau eraill:**




- Gwella mynediad i swyddi i grwpiau o bobl sy'n cael eu gadael allan.



- Fe fyddwn ni'n gwella ein gweithle fel ei fod yn fwy cefnogol a **chynhwysol**.



- Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n talu staff. A chymryd camau i wneud yn siŵr ei fod yn deg, os oes angen.

**Dyma rai o'r pethau fyddwn ni'n eu gwneud i gyflawni'r amcanion yma:**



- Parhau i fod yn sefydliad sy'n **hyderus o ran anabledd**. Dyma gynllun ar gyfer cyflogwyr sy'n cefnogi staff anabl.




- Adolygu sut rydyn ni'n recriwtio staff a gwneud yn siŵr ei fod yn deg. Edrych ar faterion sy'n stopio unrhyw grwpiau rhag gwneud cais.



- Edrych ar ffyrdd o gefnogi pobl i mewn i waith. Er enghraifft, drwy hyfforddiant.



- Adolygu sut rydyn ni'n gweithio gyda myfyrwyr a gwella cyfleoedd i wneud ymchwil a lleoliadau gwaith.




- Gwneud cynllun gweithlu i helpu i wneud yn siŵr bod mwy o grwpiau o bobl yn rhan o'n gweithlu.



- Adolygu a gwella ein gwaith llesiant i staff.





- Gwneud yn siŵr bod ein polisïau staff yn **gynhwysol**.



- Rhoi amrediad o hyfforddiant i reolwyr am **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



- Monitro cydraddoldeb i weld sut rydyn ni'n gwneud i wneud i'n gweithlu fod yn **amrywiol**.




- Edrych ar ganlyniadau ein hadolygiad o sut mae gwahanol swyddi'n cael eu talu. Fe fyddwn ni yn gwneud cynllun os byddwn yn dod o hyd i fenywod a dynion sydd â'r un swyddi neu swyddi tebyg yn cael eu talu'n wahanol.

# 4. Llywodraethiant ac Ymgysylltu - mae pawb yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud



**Ein prif nod: Rydyn ni eisiau i ystod amrywiol o bobl gael dweud eu dweud am ein gwaith a'r parc.**

**Nodau eraill:**



- Fe fydd mwy o gyfleoedd i grwpiau sy'n aml yn cael eu gadael allan i gymryd rhan.



- Fe fydd gan **Aelodau** a Staff y sgiliau i ddeall cydraddoldeb yn well.



**Aelodau** ydy pobl sy'n gwneud penderfyniadau am y parc a'n gwaith. Maen nhw'n gallu bod yn gynghorwyr lleol neu'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru.



- Fe fyddwn ni yn siarad â mwy o grwpiau o bobl am y parc ac yn cael eu barn.

**Dyma rai o’r pethau fyddwn ni yn eu gwneud i gyflawni’r amcanion yma:**



- Gweithio gydag eraill i helpu pobl o wahanol gefndiroedd i ddod yn **Aelodau** o Awdurdod y Parc.



- Rhedeg rhaglenni’r **Genhedlaeth Nesaf** a’r **Pwyllgor Ieuenctid**. Mae’r rhain yn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud a’u bod yn cymryd rhan.



- Rhedeg fforwm gwirfoddol.



- Rhoi hyfforddiant i **Aelodau** am gydraddoldeb a **chynhwysiant**.



- Edrych ar effaith ein gwaith ar gydraddoldeb.



- Cefnogi pobl sy’n byw yn y parc i gymryd rhan yn y gaeaf.



- Rydyn ni eisiau cael mwy o safbwyntiau gan wahanol grwpiau o bobl ar ein gwaith i helpu natur.

# Geiriau anodd

### Aelodau

Aelodau ydy pobl sy'n gwneud penderfyniadau am y parc a'n gwaith. Maen nhw'n gallu bod yn gynghorwyr lleol neu'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru.

### Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o lawer o gefndiroedd, mae ganddyn nhw anghenion gwahanol ac maen nhw yn gwneud dewisiadau gwahanol.

### Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn meddwl rhywbeth fydd yn para am amser hir. Rhywbeth sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd.

### Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn cael eu cynnwys, pwy bynnag ydyn nhw.

### Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi rheolau am beth sydd yn gallu cael ei adeiladu yn y Parc.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl hawdd i bobl ei ddefnyddio, beth bynnag maen nhw ei angen.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn grwpiau o bobl sy'n aml yn cael eu gadael allan mewn cymdeithas neu'n cael eu trin yn annheg. Mae'r grwpiau'n ymwneud â:

- Oed
- Anabledd
- Newid Rhywedd – mae hyn yn meddwl bod yn rhywedd gwahanol i'r un y cawsoch eich geni ag ef.
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gredoau
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol – mae hyn yn meddwl pwy rydych chi'n cael eich denu atyn nhw.